Bank of England

# Pa thema hoffech chi ei gweld ar ein cyfres nesaf o bapurau arian?

Papur Ymgynghori

Gorffennaf 2025



# Trosolwg

Mae Banc Lloegr yn parhau i ymrwymo i ddarparu papurau arian y gallwch ddal i'w defnyddio'n hyderus. Wrth i ni ddechrau cynllunio'r genhedlaeth nesaf o bapurau arian, rydyn ni'n ystyried pa thema a ddylid ei chynrychioli i symboleiddio'r DU, a hoffwn ni glywed eich barn.

Mae ein harian papur wedi arddangos pobl hanesyddol enwog ers 1970, pan fu i William Shakespeare fod y person cyntaf heblaw'r brenin neu'r frenhines i ymddangos ar arian papur Banc Lloegr. Yn y 55 o flynyddoedd ers hynny, rydym wedi gallu dathlu llawer o unigolion sydd wedi siapio meddwl, arloesedd, arweinyddiaeth, gwerthoedd a chymdeithas y DU, gan gynnwys Winston Churchill (£5), Jane Austen (£10), JMW Turner (£20) ac Alan Turing (£50) sy'n ymddangos ar ein cyfres bresennol o arian papur. Mae llawer mwy o unigolion o ystod eang o feysydd a chefndiroedd a allai ymddangos wrth symud ymlaen.

Fodd bynnag, mae llawer o ffyrdd o gynrychioli'r DU ar ein harian papur. Rydym ni am glywed a fyddech chi'n hoff i ni barhau i gynnwys pobl hanesyddol, neu os oes themâu eraill sydd well gennych chi iddyn nhw gael eu cynrychioli. Mae'r themâu posibl rydyn ni wedi eu nodi yn cynnwys:

- pobl hanesyddol enwog
- natur
- pensaernïaeth a thirnodau
- y celfyddydau, diwylliant a chwaraeon
- cerrig milltir o bwys
- arloesi

Gallwch chi hefyd awgrymu themâu eraill i ni eu hystyried. Byddwn ni'n parhau i gynnwys llun o'r brenin ni waeth beth fydd y thema/themâu a ddewisir.

**Rhannwch eich barn gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein hon neu ysgrifennwch atom ni yn y cyfeiriad canlynol:**

Banknote Imagery Consultation
Notes Directorate
Bank of England
Threadneedle Street
Llundain
EC2R 8AH

**Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau am 11.59yh ar 31 Gorffennaf 2025.**

# Pam ydyn ni'n dylunio cyfres newydd o arian papur?

Fel banc canolog y DU, un o'n rolau fwyaf pwysig yw gwneud yn siŵr bod gennych chi ddewis sut gallwch chi dalu am bethau'n ddiogel, sy'n cynnwys darparu arian papur o ansawdd uchel y gallwch chi eu defnyddio yn hyderus.

Tra bod y defnydd o arian ar gyfer trafodion wedi gostwng dros y degawd diwethaf, mae'n parhau i fod y dull o dalu sydd orau gan tua un allan o bump o bobl, ac mae'n cael ei ddefnyddio gan lawer mwy.

Mae lefelau o ffugio yn parhau'n isel ac rydyn ni am sicrhau gall y cyhoedd ddefnyddio arian yn hyderus o hyd yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys dylunio papurau arian papur y'n ymgorffori'r dechnoleg wrth-ffugio ddiweddaraf ac sy'n hygyrch, yn cynnwys ffont mawr a nodweddion cyffyrddadwy er mwyn helpu deillion a'r rhai sy'n gweld yn rhannol adnabd werth y papur arian.

# Pam ydyn ni'n ymgynghori â chi nawr?

Mae hi'n broses gymhleth a manwl dros lawer o flynyddoedd i ddylunio papurau arian sy'n wydn ac yn hygyrch, a'u hargraffu a'u profi er mwyn gwneud yn siŵr eu bod o ansawdd uchel. Felly, rydyn ni am ddechrau nawr.

Un o'r camau cyntaf, ac yn hollbwysig yn y broses ddylunio yw'r dewis o ddelweddau a fydd yn ymddangos ar yr arian papur papurau newydd. Mae'ch barn chi yn rhan allweddol o'r dewis hwnnw. Ar hyn o bryd, rydyn ni'n ceisio'ch barn ar y dewis o thema ar gyfer y gyfres nesaf o bapurau arian.

# Beth ydyn ni'n ei olygu wrth 'thema'?

Bydd ein cyfres nesaf o bapurau arian yn parhau i gynnwys llun o'r brenin ar bob papur arian. Rydyn ni'n eich gwahodd i roi'ch barn ar themâu posibl sy'n cipio'r mathau o ddelweddau eraill a allai gael eu cynnwys ar y papurau arian.

Rydyn ni wedi nodi chwe thema posibl I chi roi'ch barn arnynt trwy ddefnyddio'r **ffurflen ar-lein** hon neu drwy ysgrifennu atom ni yn y cyfeiriad isod. Y rhain yw:

- **pobl hanesyddol enwog**: Gallai'r thema hon, sy'n cael ei defnyddio ar ein cyfres bresennol o bapurau arian ei dynodi gan luniau pobl hanesyddol benodol sydd wedi gwneud cyfraniad pwysig i gymdeithas a diwylliant y DU. Ni fyddwn yn cynnwys pobl sydd o hyd yn fyw ar ein papurau arian, ac eithrio'r brenin.
- **natur:** Gallai'r thema hon gael ei dynodi gan ddelweddau o blanhigion neu anifeiliaid brodorol neu dirweddau naturiol megis afonydd, llynnoedd, mynyddoedd neu olygfeydd arfordirol o lefydd ar draws y DU.
- **pensaernïaeth a thirnodau:** Gallai'r thema hon gael ei dynodi gan ddelweddau o adeiladau a llefydd eraill eiconig , megis cestyll, pontydd neu safleoedd treftadaeth ar draws y DU.
- **y celfyddydau, diwylliant a chwaraeon:** Gallai'r thema hon gael ei dynodi gan ddelweddau o'r celfyddydau, cerddoriaeth, llenyddiaeth, arferion, bwyd, ffilm, teledu neu chwaraeon sy'n diffinio'r DU.
- **cerrig milltir o bwys:** Gallai'r thema hon gael ei dynodi gan ddelweddau o ddigwyddiadau pwysig a mudiadau sydd wedi siapio'r DU.
- **arloesi:** Gallai'r thema hon gael ei dynodi gan ddelweddau o ddatblygiadau pwysig, technolegau, darganfyddiadau neu syniadau a ddatblygwyd yn y DU.

Gallwch chi hefyd awgrymu themâu eraill i ni eu hystyried. Bydd yr awgrymiadau hyn yn cael eu hasesu yn erbyn ein meini prawf, a osodir isod.

# Beth sy'n gwneud thema dda ar gyfer papur arian?

Wrth benderfynu pa thema i'w defnyddio, rydyn ni'n ystyried y meini prawf canlynol:

- **mae'n symboleiddio'r DU:** Dylai fod gan y thema ddolen uniongyrchol â, ac felly cynrychioli'r DU, e.e. yn dathlu unigolion o ystod o feysydd a chefndiroedd sy'n bwysig yn hanes y DU neu dirweddau a thirnodau o wahanol rannau o'r DU.

- **mae'n taro tant gyda'r cyhoedd:** Dylai'r thema, a'i phwysigrwydd, fod yn hawdd ei hadnabod ac yn ystyrlon i'r cyhoedd Prydeinig.
- **nid yw'n gynhennus:** Ni ddylai'r thema gynnwys unrhyw ddelweddaeth a fyddai'n sarhaus yn rhesymol i, neu'n eithrio unrhyw grŵp.
- **mae'n barhaol:** Ni ddylai'r thema fod yn rhy fodern neu fod â chysylltiad â thuedd diweddar, neu mae'n bosibl iddi fod yn amherthnasol neu ddyddio'n gyflym. Mae papurau arian yn parhau i gylchredeg am lawer o flynyddoedd, a dylai eu dyluniadau aros yn berthnasol am sawl degawd, os nad am gyfnod amhenodol.
- **mae'n cefnogi dilysu papurau arian:** Dylai'r thema, a'r delweddau a fyddai'n cael eu defnyddio i bortreadu'r thema honno, allu gweithio mewn cytgord â'n nod o greu papurau arian sy'n hygyrch a diogel i'r cyhoedd allu cyhoedd eu defnyddio'n hwylus a heb bryder.
- **mae'n gyson â'n goblygiadau cyfreithiol:** Wrth ystyried pa thema i'w chynnwys, byddwn yn rhoi sylw dyladwy i ddyletswydd gydraddoldeb y sector gyhoeddus a chyfreithiau perthnasol eraill, gan gynnwys ystyried yr effaith ar unigolion sy'n rhannu'r nodweddion gwarchodedig a osodwyd allan yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

# Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn cau am 11:59yh ar 31 Gorffennaf 2025. Byddwn ni'n ystyried yr ymatebion yng ngoleuni ein nodau ar gyfer dylunio papurau arian. Efallai na fyddwn ni'n dewis y thema sy'n derbyn y mwyaf o bleidleisiau gan y byddwn ni hefyd yn asesu sut mae pob thema'n bodloni ein meini prawf, yr ystod o ddelweddau sydd ar gael i'r Banc allu portreadu'r thema honno ac adborth gan grwpiau ffocws a rhanddeiliaid eraill. Er enghraifft gallwn ni benderfynu defnyddio cyfuniad o'r themâu uchod neu eraill a grybwyllwyd gan y cyhoedd.

Yn dibynnu ar ba thema a ddewiswyd, efallai gallwn ni geisio cael rhagor o adborth gan y cyhoedd ar ddelweddau penodol a allai gael eu defnyddio i ddangos y thema a ddewiswyd. Byddwn ni'n gadael i chi wybod y newyddion diweddaraf, gan gynnwys cyhoeddiadau o ddyluniadau terfynol y papurau arian maes o law.

© Banc Lloegr 2025